**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 16 Mehefin 1999

**Amser:** 09:00 - 12:00

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb**

*Aelodau*

Ron Davies (Cadeirydd) Caerffili

Alun Cairns De Orllewin Cymru

Val Feld Dwyrain Abertawe

Michael German Dwyrain De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones Llanelli

Rhodri Morgan (YC) Gorllewin Caerdydd

Phil Williams Dwyrian De Cymru

*Swyddogion*

Derek Jones Uwch Gyfarwyddwr Materion Economaidd

Michael Cochlin Cyfarwyddwr y Grp Datblygu Economaidd

Michael Phelps Prif Ymgynghorydd Economaidd

*Ysgrifenyddiaeth*

Helen Usher Clerc

Vaughan Watkin Dirprwy Glerc (Gweithredol)

**Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

*Croeso*

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor. Dywedodd fod gan y pwyllgor rôl bwysig yn y gwaith o ddatrys problemau economaidd Cymru, yn ogystal â rôl wrth fonitro’r math newydd o lywodraeth yng Nghymru a gynrychiolir gan y Cynulliad. Dywedodd ei fod am i bob aelod o’r Pwyllgor gyfrannu’n llawn at waith y Pwyllgor.

*Materion ymarferol*

Yr oedd trefn eistedd y Pwyllgor wedi ei benderfynu ymlaen llaw er mwyn helpu’r darlledwyr a’r cyfieithwyr, ond gellid newid y trefniadau pe bai angen.

*Datgan buddiant*

Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau’r pwyllgor i ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwaith ar y Pwyllgor (yn unol â Rheol Sefydlog 4.5, y Cod ar Safonau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a’r Canllawiau ar Fuddiannau Aelodau).

Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Mr Brian Hancock wrth y Pwyllgor ei fod yn Ymgynghorydd ar Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd a’i fod yn rhedeg cwmni bach, sef Brian Hancock Associates (BHA) a oedd yn delio â materion o’r fath.

- Hysbysodd Alun Cairns y pwyllgor ei fod yn ymgynghorydd ar ddatblygu busnes ar gyfer Lloyds TSB, ac yn ymwneud â hyfforddi a datblygu staff o fewn y grp.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau am eu datganiadau. Atgoffodd yr Aelodau i gyd mai eu cyfrifoldeb hwy oedd gwneud datganiadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol pe bai ganddynt fuddiant mewn mater penodol a oedd yn cael ei drafod gan y Pwyllgor.

**Agenda Eitem 1: Sefyllfa’r Economi yng Nghymru (EDC-01-99 (P.1W))**

1.1 Cyflwynodd Mr Rhodri Morgan (YC) y papur ar sefyllfa’r economi yng Nghymru a oedd yn cynnwys gorolwg ar economi Cymru, gan gynnwys dangosyddion economaidd. Yn dilyn hynny cyflwynodd Mr Derek Jones a Mr Michael Phelps a’u gwahodd i ymuno ag ef wrth y bwrdd.

1.2 Bu trafodaeth lawn ar y papur ac ar y materion a oedd yn deillio ohono. Dyma’r prif bwyntiau a godwyd:

- Yr oedd pryder mai yng Nghymru yr oedd y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth isaf y pen o blith holl ranbarthau’r DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon.
- Nid oes yng Nghymru lawer o swyddi sy’n talu cyflogau uchel. Mae prinder swyddi gyda chyflogau uchel yn y sector gwasanaethau (gwasanaethau ariannol etc) a phrinder swyddi Ymchwil a Datblygu. Ychydig iawn o gwmnïau mawr sydd â’u prif swyddfeydd yng Nghymru.

- Mae cyfraddau anweithgarwch yn uchel iawn, yn enwedig o’u cymharu â rhannau eraill o’r DU.
- Y mae nifer o bobl yn anweithgar oherwydd salwch tymor hir, ond ni wyddys beth yw’r rhesymau eraill.
- Y mae lefelau anweithgawrch ymhlith menywod a’r anabl yn arbennig o uchel.
- Y mae angen brys am ddadansoddiad pellach o gyfraddau anweithgarwch.
- Pe bai modd canfod y rhesymau dros anweithgawrch byddai’n bosibl i’r Pwyllgor ystyried ffyrdd o liniaru’r problemau.

- Mae patrymau gwaith a gweithgarwch wedi newid yn ystod y blynyddoedd diweddar.

- Yr oedd pryder nad oedd digon o fusnesau newydd yn cael eu sefydlu.

- Amcangyfrifir mai ychydig iawn o gynnydd, os o gwbl a welir yn ystod 2000-2001. Yr oedd hyn yn broblem ddifrifol, yn enwedig gan fod y GDP yng Nghymru eisoes yn sylweddol is na GDP y DU yn gyffredinol.

- Yr oedd yn bwysig bod y Pwyllgor yn ymwybodol o realiti'r sefyllfa economaidd yng Nghymru er mwyn gosod sylfaen ar gyfer dadansoddi'r problemau ac ystyried atebion posibl. Yr oedd angen i'r Swyddfa Gymreig a'r WDA weithio'n agosach gan yr ymddangosai fod anhawster wrth ddarparu rhagolygon economaidd cyson.

*Crynodeb y Cadeirydd*

1.3 Crynhowyd y drafodaeth gan y Cadeirydd:

- Yr oedd y Pwyllgor, ar y cyfan, yn fodlon â'r dadansoddiad a nodwyd y pryderon a danlinellwyd yn y papur.
- Yr oedd angen edrych ar y berthynas rhwng y Swyddfa Gymreig a'r WDA o ran rhagolygon. Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno papur i un o gyfarfodydd y dyfodol a fyddai'n ystyried ffyrdd o sicrhau bod rhagolygon economaidd dibynadwy yn cael eu cyflwyno a'u hystyried.
- Yr oedd angen dadansoddi cyfraddau anweithgawrch ymhellach.

*Gweithredu*

Gofynnwyd i'r swyddogion gyflwyno i'r Pwyllgor:

- Sylwadau pellach ar sut i gael rhagolygon dibynadwy;
- dadansoddiad pellach o gyfraddau anweithgawrch;
- diffiniad o'r term "intermediation" a ddefnyddiwyd yn y papur;

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

- i ddosbarthu copïau i bod Aelod o'r adroddiad gan y WDA y cyfeiriwyd ato gan y Cadeirydd.

**Agenda Eitem 2: Problemau a Chyfleoedd (EDC-01-99(p. 2W))**

2.1 Cyflwynodd Mr Rhodri Morgan (YC) y papur a oedd yn amlygu'r problemau a'r cyfleoedd i economi Cymru, ac yn rhoi gwybodaeth yngln â pha offerynnau polisi a oedd yn cael eu defnyddio. Cyflwynodd Mr Michael Cochlin.

2.2 Cynhaliwyd trafodaeth lawn ar y papur a'r materion a godwyd ganddo.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Ymhlith y problemau a nodwyd yr oedd: lefelau isel o fusnesau newydd; lefelau isel o fedrau ymhlith y gweithlu; lefelau uchel o anweithgarwch.
- Yr oedd y Fargen Newydd ond yn gymwys os oedd pobl yn cael budd-dâl. Golygai hyn fod llawer o bobl yn anghymwys a heb gyfle i ailddechrau gweithio (yn enwedig partneriaid pobl a oedd mewn gwaith neu bobl ar fudd-dâl).
- Yr oedd hi'n galonogol clywed y byddai cynlluniau i ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol yn ystyried ffyrdd i helpu pobl a oedd yn anghymwys ar gyfer y Fargen Newydd.

- Yr oedd lefelau isel o ymchwil a datblygiad yn destun pryder. Os oedd economi Cymru i dyfu ar raddfa a oedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd Prydeinig ac Ewropeaidd, yr oedd angen mwy o bwyslais ar Ymchwil a Datblygu.

- Y mae angen targed ar gyfer GDP, naill ai mewn termau absoliwt neu fel canran o ffigur Prydeinig neu Ewropeaidd.

- Ymddengys fod gormod o gyrff a mudiadau yn gweithio ym maes cymorth busnes a bod diffyg cydberthynas rhwng y problemau a'r dulliau o ddarparu gwasanaeth. Teimlai'r Pwylllgor fod hyn yn fater y byddai angen ei ystyried yn y dyfodol.

- Yr oedd y map Ardaloedd a Gynorthwyir yn bwysig iawn i ddyfodol cymorth busnes. Yr oedd angen i'r Pwyllgor wybod pa mor bell yr oedd y broses wedi mynd.

- Bu peth trafod ar ffigurau'r gyllideb ac yr oedd aelodau yn poeni am y toriad mewn gwariant ar gyfer 2000-2001. Mynegwyd pryder hefyd am y swm o arian a oedd wedi'i ddyrannu i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, a hynny hyd yn oed ar ôl y dyddiad pan fyddai'n dod i ben. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried y rhain fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

*Crynodeb y Cadeirydd*

2.3 Crynhowyd y drafodaeth a nodwyd pryderon y Pwyllgor gan y Cadeirydd:

- Yr oedd angen cadw llygad barcud ar y broses gyllidol.

- Yr oedd pryderon yngln â nifer y cyrff a'r mudiadau a oedd yn cynnig cymorth busnes a byddai'r pwyllgor yn dychwelyd at hyn rywbryd eto.

*Gweithredu*

Byddai swyddogion yn cynghori ar gynnydd yr adolygiad o'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir.

**Agenda Eitem 3: Cronfeydd Strwythurol (EDC-01-99 (p.3W))**

1. Cyflwynodd Mr Rhodri Morgan (YC) y papur a oedd yn disgrifio'r cronfeydd strwythurol a sut y gallent gael eu defnyddio i helpu wrth ddelio â'r problemau a oedd wedi'u hamlygu yn eitemau blaenorol yr agenda.

1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y byddai materion cyllidol yn cael eu trafod yn un o gyfarfodydd y dyfodol. Pwrpas y drafodaeth hon oedd ennyn dealltwriaeth o'r broses mewn perthynas â chronfeydd strwythurol a phenderfynu pa bryd y byddai'n fwyaf addas i'r Pwyllgor ystyried y dogfennau strategaeth drafft. Yr oedd yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r dogfennau hyn yn dynn iawn. Yr oedd disgwyl i'r dogfennau drafft gael eu hystyried gan y Tasglu ar 22 Mehefin cyn eu hargraffu yn barod i'w cyhoeddi ar 2 Gorffennaf (neu tua'r amser hwnnw). Ychydig iawn o amser oedd ar ôl, felly, i'r Pwyllgor ystyried ei gyfraniad i'r dogfennau cyn cyhoeddi ac yr oedd posibilrwydd y byddai'r Pwyllgor, efallai, yn peryglu ei allu i gyflwyno mwy o sylwadau pe bai'n chwarae rhan yn y broses ddrafftio. Yr oedd felly'n teimlo y buasai'n well pe bai'r Pwyllgor yn aros nes cyhoeddi'r ddogfen. Neilltuwyd amser i ystyried y drafft cyn gwyliau'r haf ac ar eu hôl.

3.3 Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn y drafodaeth:

- Mewn byd delfrydol byddai'r Pwyllgor wedi bod ynghlwm wrth lunio'r drafft ymgynghori. Ond yr oedd amseriad sefydlu'r Pwyllgor wedi golygu nad oedd hyn yn bosibl.
- Nodwyd y cyfyngiadau ymarferol.
- Teimlai rhai o aelodau'r Pwyllgor y dylent gael gweld y drafftiau cyn gynted â phosibl. Yr oeddent yn ddogfennau hir ac yr oedd angen amser i'w hystyried yn iawn.

- Yr oedd y Pwyllgor am drafod y dogfennau yn gyhoeddus ac yr oedd hyn yn awgrymu y dylai aros tan cyhoeddi'r ddogfen.

- Yr oedd y cyfnod ymgynghori (chwe wythnos a oedd yn cynnwys mis Awst) yn rhy fyr. Nid oedd yn caniatáu digon o amser i gyrff a mudiadau (yn enwedig cyrff a mudiadau gwirfoddol bach) ystyried yn drylwyr y dogfennau hyn a oedd yn rhai pwysig a manwl iawn. Dylid estyn y cyfnod i ganol Medi.

- Yr oedd hefyd yn bwysig bod y dull dosbarthu yn cael ei bennu a'i esbonio. Yr oedd angen i'r rheini ar lefel leol ddechrau trefnu eu cynlluniau lleol.

- Gallai fod rôl i'r Pwyllgorau Rhanbarth yn y broses.

*Crynodeb y Cadeirydd*

3.4 Wrth grynhoi dywedodd y Cadeirydd fod:

- Barn glir, er bod peth anghytundeb hefyd, na fyddai'r Pwyllgor yn ystyried y dogfennau cyn iddynt gael eu gwneud yn gyhoeddus. Byddai'r Cadeirydd, fodd bynnag, yn sicrhau bod trafodaeth yn cael ei chynnal cyn gynted â'i bod yn ymarferol gwneud hynny ar ôl i'r dogfennau gael eu cyhoeddi.
- Angen estyn y cyfnod ymgynghori tan ganol Medi.
- Y Pwyllgor yn mynd i ystyried y materion cyllidol yn ei gyfarfod gydag Edwina Hart.

*Gweithredu*

Swyddogion i ddarparu nodyn briffio byr i'r Pwyllgor yn sôn am ariannu, cyllidebau (Yr Arolwg Gwariant Cyhoeddus) a throsglwyddo cyllid rhwng Adrannau

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 17 Mehefin 1999**